Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed pump bob ochr a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ystod y mis. Gwnaethant waith da iawn gan gyrraedd y rownd derfynol. Boddi yn ymyl y lan fu hi a dymunwn yn dda i'r enillwyr yn y rowndiau nesaf.

Braf yw cael croesawu criw o fyfyrwyr o'r Brifysgol yn Aberystwyth atom am brynhawn bob wythnos. Caiff dosbarth 3 a 4 gyfle i arbrofi ym myd Gwyddoniaeth yn eu cwmni.

Un prynhawn cafodd plant dosbarth 3 a 4 gyfle i wrando ar Mrs Sian Lewis yn sôn am ei gwaith fel awdur nifer o lyfrau a sut yr â ati i lunio'r storïau difyr. Bu'n orig ddiddorol tu hwnt a'r plant yn mwynhau gwrando arni.

Treuliodd cyn-ddisgybl, sef Nicola Richards, wythnos cyn hanner tymor yn yr ysgol fel rhan o'r cynllun profiad gwaith. Bu'n cynorthwyo ymhob dosbarth yn ei dro a gobeithio i'r profiad fod o werth iddi ar gyfer y dyfodol.